OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 180

## Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

## RHAN 3

Darpariaethau cyffredinol ac atodol

**Glanhau a diheintio cerbydau: darparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau**

**28.** Pan fo'n ofynnol glanhau a diheintio cerbydau yn unrhyw fangre gan neu o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i feddiannydd y fangre honno ddarparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau priodol ar gyfer y glanhau a'r diheintio hwnnw.

**Marciau a osodir o dan y Rheoliadau hyn**

**29.** Ni chaniateir i unrhyw berson guddio neu ddileu marc a osodir ar unrhyw anifail, carcas, cynnyrch anifeiliaid, cerbyd nac unrhyw beth arall o dan y Rheoliadau hyn oni bai—

(a) bod y marc yn stamp ar ben marc iechyd neu farc dynodi ac yn yr achos hwnnw caniateir tynnu'r stamp ar ben yn yr un modd â'r marc hwnnw, neu

(b) bod arolygydd wedi rhoi awdurdod ysgrifenedig.

**Newid meddiannaeth mangre o dan gyfyngiad**

**30.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os nad ydyw ceidwad unrhyw anifail neu ddofednyn yn gallu ei symud o'r fangre ar derfyn ei hawl i feddiannu oherwydd cyfyngiad a osodwyd gan, neu o dan, y Rheolidau hyn.

(2) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannu'r fangre ar y terfyniad hwnnw—

(a) darparu'r cyfleusterau hynny i fwydo, gofalu am yr anifail neu'r dofednyn neu ddefnyddio'r anifail neu'r dofednyn fel arall (gan gynnwys ei werthu) y gall y ceidwad yn rhesymol eu gwneud yn ofynnol, a

(b) caniatáu mynediad i'r fangre i'r ceidwad hwnnw ac i unrhyw berson arall a awdurdodir ganddo ar adegau rhesymol i fwydo, gofalu am yr anifail neu'r dofednyn neu ddefnyddio'r anifail neu'r dofednyn fel arall.

(3) Os nad ydyw'r ceidwad yn gallu neu'n fodlon bwydo neu ofalu am yr anifail neu'r dofednyn, rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannu'r fangre gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cael ei fwydo'n briodol ac yn cael gofal priodol.

(4) Mae ceidwad anifail neu ddofednyn yn atebol i dalu'r costau rhesymol a dynnir o dan y rheoliad hwn gan unrhyw berson sy'n ei fwydo neu'n gofalu amdano, neu'n darparu cyfleusterau ar gyfer ei fwydo, gofalu amdano neu'n ei ddefnyddio fel arall.

### Cymorth rhesymol

**31.** Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo roi cymorth rhesymol neu wybodaeth resymol i berson sy'n cymryd camau wrth weithredu'r Rheoliadau hyn er mwyn cyflawni ei swyddogaethau oddi tano, wneud hynny'n ddi-oed onid oes ganddo achos rhesymol dros beidio.

### Gwybodaeth anwir

**32.** Ni chaiff neb roi gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol i berson sy'n cymryd camau i weithredu'r Rheoliadau hyn.

### Dangos cofnodion

**33.**—(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ddangos cofnod gan berson sy'n cymryd camau i weithredu'r Rheoliadau wneud hynny'n ddi-oed.

(2) Pan ddangosir y cofnod, caiff person sy'n cymryd camau i weithredu'r Rheoliadau hyn—

(a) gwneud copi o unrhyw gofnodion, ar ba ffurf bynnag y cedwir hwy, neu

(b) symud unrhyw gofnodion er mwyn galluogi iddynt gael eu copïo, neu pan gedwir hwy yn electronig, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu llunio mewn ffurf y gellir ei chludo ymaith.

(3) Rhaid i berson sy'n symud cofnodion o dan y rheoliad hwn roi derbynneb ysgrifenedig amdanynt.

### Cydymffurfio â hysbysiadau a chyfarwyddiadau

**34.**—(1) Rhaid cydymffurfio ag unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn ar gost y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, ac eithrio pan ddarperir fel arall yn yr hysbysiad hwnnw.

(2) Rhaid cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd llafar a roddir o dan y Rheoliadau hyn ar gost y person y rhoddir y cyfarwyddyd iddo, ac eithrio pan ddarperir fel arall mewn cyfarwyddyd ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol.

### Pwerau arolygwyr

**35.**—(1) Mae adran 63 o'r Ddeddf yn gymwys fel pe bai'r Rheoliadau hyn wedi'u cynnwys yn y Ddeddf ac fel pe bai'r diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy.

(2) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf i'w cymhwyso fel pe bai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf ac fel pe bai'r diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy—

(a) adran 64A (pwerau arolygwyr mewn cysylltiad â rhwymedigaethau Cymunedol), a

(b) adran 65(1) i (3) (pŵer i ddal llongau ac awyrennau).

(3) Mae adran 65A o'r Ddeddf (archwilio cerbydau) yn gymwys fel pe bai—

(a) y Rheoliadau hyn yn Orchymyn o dan y Ddeddf;

(b) y diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy; ac

(c) pob parth brechu a pharth gwyliadwriaeth brechu wedi'i ddynodi cyhyd ag y bydd yn para mewn bodolaeth at ddibenion yr adran honno.

### Gorfodi, troseddau ac achosion

**36.**—(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel pe bai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf—

(a) adran 60 (dyletswyddau ac awdurdodiadau cwnstabliaid),

(b) adran 66 (gwrthod a rhwystro),

(c) adran 67 (dyroddi trwyddedau anwir etc.),

(ch) adran 68 (dyroddi trwyddedau sy'n wag etc.),

(d) adran 71 (tramgwyddau eraill o ran trwyddedau);

(dd) adran 71A, (erlyniadau: terfyn amser)

(e) adran 73 (tramgwyddau cyffredinol);

(f) adran 77 (arian y gellir ei adennill yn ddiannod), ac

(ff) adran 79(1) i (4) (tystiolaeth a gweithdrefn)

ac fel pe bai'r diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy.

(2) Mae adran 69 o'r Ddeddf (cael trwyddedau drwy dwyll etc.) yn gymwys fel pe bai trwyddedau, tystysgrifau neu offerynnau a ganiatawyd neu a ddyroddwyd o dan y Rheoliadau hyn wedi'u caniatáu neu eu dyroddi o dan Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf.

(3) Mae adran 75 o'r Ddeddf (cosbau am dramgwyddau diannod) yn gymwys fel pe bai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf ac eithrio nad yw unrhyw gyfnod o garchar ar gollfarn ddiannod i fod yn fwy na thri mis.

### Dangos trwyddedau a dadlwytho ar ôl symudiadau trwyddedig

**37.** Rhaid i bob person y dyroddwyd trwydded iddo o dan y Rheoliadau hyn, pan fydd yn cyflawni'r gwaith a drwyddedwyd, o dan y Rheoliadau hyn gadw'r drwydded gydag ef a'i dangos i arolygydd pan hawlir hi yn ddi-oed.

### Pwerau cyffredinol i arolygwyr milfeddygol gymryd camau i rwystro'r clwy rhag ymledu

**38.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ym mhob parth brechu a phob parth gwyliadwriaeth brechu.

(2) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys, caiff arolygydd milfeddygol, os yw o'r farn ei bod yn angenrheidiol i rwystro'r clwy rhag ymledu, ei gwneud yn ofynnol—

(a) dal ac ynysu unrhyw gerbyd, cyfarpar neu unrhyw beth arall, ac yna eu glanhau a'u diheintio drwy gyflwyno hysbysiad sy'n gwneud y camau hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre lle y mae'r cerbyd, y cyfarpar neu unrhyw beth arall yn bresennol neu i'r person sydd â gofal amdanynt;

(b) glanhau a diheintio unrhyw fangre neu le arall yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn drwy gyflwyno hysbysiad yn gwneud hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre honno neu'r lle hwnnw;

(c) gwaredu, golchi, glanhau a diheintio dillad neu esgidiau unrhyw berson drwy gyflwyno hysbysiad iddo sy'n gwneud hynny yn ofynnol;

(ch) bod unrhyw berson yn ei lanhau ei hunan drwy gyflwyno hysbysiad iddo sy'n gwneud hynny'n ofynnol;

(d) dal neu ynysu mewn lle penodedig unrhyw anifail neu ddofednyn drwy gyflwyno hysbysiad yn gwneud hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre lle y mae'r anifail neu'r dofednyn yn bresennol, neu i'w geidwad;

(dd) gwahanu unrhyw anifail neu ddofednyn oddi wrth unrhyw anifeiliaid neu ddofednod eraill drwy gyflwyno hysbysiad yn gwneud hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre lle y mae'r anifail neu'r dofednyn yn bresennol, neu i'w geidwad.

(3) Gall hysbysiad o dan y rheoliad hwn gynnwys y cyfarwyddiadau a'r amodau hynny y mae'r person sy'n ei gyflwyno o'r farn ei fod yn angenrheidiol er mwyn rhwystro ymlediad y clwy.

(4) Nid yw'r pwerau a roddir i arolygydd milfeddygol gan y rheoliad hwn yn rhagfanrnu'r pwerau a roddir gan unrhyw ddapariaeth arall o'r Rheoliadau hyn.

### Pwerau arolygwyr os ceir methiant

**39.**—(1) Os bydd person yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn, caiff arolygydd gymryd unrhyw gamau a farno'n angenrheidiol i sicrhau y bydd y gofyniad yn cael ei fodloni.

(2) Os bydd person yn gweithredu'n groes i ofyniad a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn, caiff arolygydd gymryd unrhyw gamau a farno'n angenrheidiol i adfer y sefyllfa er mwyn atal y clwy rhag ymledu.

(3) Wrth gymryd camau o dan baragraff (1) neu (2), caiff arolygydd atafaelu a dal unrhyw anifail, a symudwyd, a gadwyd neu a drafodwyd fel arall yn groes i gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Wrth gymryd camau o dan baragraff (2), caiff arolygydd drwy hysbysiad a gyflwynir i unrhyw berson gyfarwyddo'r person hwnnw i gymryd neu i ymatal rhag cymryd camau penodol mewn cysylltiad ag unrhyw le, anifail, dofednyn, cerbyd, cynnyrch anifail neu unrhyw beth arall.

(5) Ni fydd unrhyw gamau a gymerir o dan y rheoliad hwn yn rhagfarnu achos am dramgwydd sy'n deillio o'r methiant.

(6) Rhaid i'r person a fethodd, ad-dalu unrhyw dreuliau rhesymol a dynnwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r awdurdod lleol wrth gymryd camau o'r fath a gellir adennill unrhyw ad-daliad yn ddiannod.

### Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

**40.**—(1) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

bernir bod y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), ystyr "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

### Tramgwyddau: dim gwybodaeth am y cyfyngiad neu'r gofyniad

**41.** Ni fydd unrhyw berson yn euog o fethu â chydymffurfio â chyfyngiad neu ofyniad sy'n gymwys oherwydd datgan bod parth—

(a) yn barth brechu, neu

(b) yn barth gwyliadwriaeth brechu

os yw'r person yn gallu dangos er boddhad y llys nad oedd yn gwybod am y cyfyngiad neu'r gofyniad hwnnw ac na allai gyda diwydrwydd rhesymol fod wedi cael gwybod amdano.

### Gorfodi

**42.**—(1) Yn ddarostyngedig i bargraffau (2) a (3), yr awdurdod lleol sydd i orfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol orfodi'r Rheoliadau hyn o ran lladd-dai.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo, o ran achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, bod dyletswydd orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn i'w chyflawni gan y Cynulliad Cenedlaethol ac nid gan yr awdurdod lleol.

### Dirymiadau

**43.** Dirymir yr offerynnau canlynol—

(a) Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Ardaloedd Heintiedig) (Brechu) 1972(**1**) (i'r graddau y mae'r Gorchymyn yn gymwys o ran Cymru); a

(b) Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Gwahardd Brechu) (Cymru) 2001(**2**) .

(**1**) O.S. 1972/1509.
(**2**) O.S. 2001/2374 (Cy.198).